

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun **12 Mawrth 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-03/18: Presennol**

Cadeirydd ; Cyng Elizabeth George;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng Henry Jones; Cyng Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng William E Evans

Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-03/18 Ymddiheuriadau:**

Cyng Sian Williams; . Dr E Tudor Jones; Cyng Elizabeth Reagan; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Wayne Roberts;

### **3-03/18: Datgan diddordeb**

Ni wnaeth neb datgan diddordeb.

### **4-03/18 Cadarnhau cofnodion mis Chwefror**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith

### **5-03/18: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)**

- a. Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o holl gynghorau tref a chymuned Cymru– epost 8 Mawrth 2018 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad o'r modd y mae cyrff llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Maent wedi cynnal sgyrsiau ag aelodau o'r cyhoedd, yn ogystal â swyddogion ac aelodau mewn cyrff llywodraeth leol. Er mwyn sicrhau ei bod yn cael dealltwriaeth lawn o'r materion sy'n codi mewn cymunedau ar draws Cymru, maent hefyd yn awyddus i glywed safbwynt cynghorau tref a chymuned, yn arbennig am:
  - Y berthynas a'r ymwneud gyda'r awdurdod lleol;
  - Gwasanaethau neu fwynderau a ddarperir gan gynghorau tref/cymuned
  - Unrhyw asedau sydd wedi eu trosgwyddo oddi wrth awdurdodau lleol i-gynghorau tref/cymuned

Gan fod angen ymateb erbyn 6 Ebrill (sydd cyn dyddiad nesaf o gyfarfod y Cyngor) nodwyd y byddai ymateb drafft yn cael ei baratoi gan y Cadeirydd, is-Gadeirydd a'r Clerc ac yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor am sylwadau er mwyn medru ei gyflwyno.

- b. Cynadleddau Trosglwyddo Asedau Cymunedol  
Gwahoddiad i fynychu – 26 Mawrth 2018 – Llanrwst. Bydd y Clerc yn mynychu.

### **6-03/18 : Gohebiaeth**

- a. Panel Adolygu Annibynnol o Gynghorau Cymuned a Thref – epost 15 Chwefror 2018

Nodwyd bod y Clerc wedi mynychu cyfarfod ymgynghori gydag aelodau panel yr adolygiad yng Nghaernarfon ar 6 Mawrth er mwyn rhoi mewnbwn i'r adolygiad. Roedd drafft ymateb Un Llais Cymru i'r adolygiad yn dilyn ei seisynau ymgynghoriad ar draws Cymru dal i'w ddisgwyl. Cafwyd adroddiad ar lafar am y prif negeseuon a nodwyd yn y sesiwn ymgynghori. Trafodwyd 4 cwestiwn:

1. Am beth dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol?
2. Sut y dylent weithredu?
3. Beth sy'n eu hatal rhag cyflawni dros y gymuned leol?
4. Sut y mae cynghorau'r sicrhau eu bod yn cynrychioli'r gymuned leol yn y ffordd orau bosibl?

#### **Penderfyniad**

Nid oedd y Cyngor am yrru sylwadau gan fod y prif bwyntiau wedi eu nodi yn yr adroddiad a rhoddwyd iddynt.

- b. Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn –ymateb i Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus  
Cafwyd ystyried o ymateb drafft i'r ymgynghoriad a oedd wedi cael ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth

**Penderfyniad:** cytuno ar yr ymateb i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau

- c. Llywodraeth Cymru – Canllaw i Brif Gyngorau – epost 23 Chwefror 2018  
Nodwyd y canllaw i swyddogion prif gyngorau ar gyfer cynnal arolwg o'u cymunedau a oedd rŵan ar ei ffurf derfynol. Roedd wedi ei ddatblygu er mwyn cefnogi mwyn o gysondeb o ran y modd y cynhelir arolygon cymunedol.

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth

- d. Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft – epost 22 Chwefror 2018

Nodwyd yr ymgynghoriad.

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth

- e. Un Llais Cymru – Gwybodaeth Bwysig- Arweinlyfr Diogelu Data – epost 26 Chwefror 2018

Nodwyd y wybodaeth a oedd yn cael sylw a bod canllaw priodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn cael ei baratoi. Nodwyd hefyd bod Un Llais Cymru am gynnal

seswin hyfforddiant. Roedd yr Is-Grŵp Cyllid wedi neilltuo swm i benodi Swyddog Gwarchod Data yng nghyllideb drafft 2018-19.

**Penderfyniad:**derbyn y wybodaeth a nodi pwysigrwydd cydsyniad gyda'r ddeddfwriaeth erbyn mis Mai.

- f. Swyddfa Archwilio Cymru – Copi o 'Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Lleol 2016-17' –ebost 1 Mawrth 2018

Nodwyd yr adroddiad ar reolaeth ariannol a llywodraethiant mewn cyngorau lleol a oedd wedi ei gylchredeg. Roedd yr Is-Grŵp Cyllid hefyd wedi trafod yr adroddiad mewn cyfarfod diweddar ac wedi nodi'r casgliadau (cofnodion Is-Grŵp Cyllid 5 Mawrth – eitem 11 isod)

**Penderfyniad:**derbyn y wybodaeth a nodi paradorwydd y Cyngor i wella parhaus ac i ddysgu o ymarfer da.

- g. Adroddiad Blynyddol PACGA – Chwefror 2018 – ebost 27 Chwefror 2018

Nodwyd yr adroddiad terfynol a oedd wedi ei gylchredeg. Roedd yr adroddiad wedi ei ystyried gan yr Is-Grŵp Cyllid ar 5 Mawrth – argymhellion i'w ystyried o dan eitem 11 isod)

**Penderfyniad:**derbyn y wybodaeth

- h. Llywodraeth Cymru – Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2018-19 – ebost 1 Mawrth 2018

Nodwyd canllaw a ffurflen gais yn ymwneud â chefnogaeth Llywodraeth Cymru, a oedd ar gael yn 2018-19, ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer pedair thema graidd, sef ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth leol, a chlystyru – dyddiad cau 20 Ebrill.

**Penderfyniad:**derbyn y wybodaeth. Nid oedd amser digonol i gael y trafodaethau priodol a chael cynnig wedi ei dderbyn a'i gytuno erbyn 20 Ebrill. Cytuno y dylid trafod posibiladau gyda chynghorau lleol ar gyfer y dyfodol.

- i. Gorchymyn Cyngor Gwynedd – ebost 13 Chwefror 2018 – Parcio ar y Stryd

Ar gyfer Criccieth – nodwyd y bwriad i gael “dim aros ar unrhyw adeg” ar Ffordd Ddi-ddosbarth Lôn Felin – ar ochr orllewniol y ffordd o'r orsaf Bad Achub am bellter o 51 metr i gyfeirad y gogledd at 'Blue China ac ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyferbyn â'r Bad Achub am belter o 32 metr i gyfeiriad y gogledd.

Roedd angen cyflwyno sylwadau erbyn 16 o Fawrth

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth a chroesawu'r newid. Roedd y Cyngor wedi awgrymu y newid yma.

- j. Cyngor Gwynedd – Cynnal Llwybrau Cyhoeddus Criccieth – ebost 26 Chwefror 2018  
Nodwyd o dan gynllun ad-daliad cynnal llwybrau cyhoeddus y byddai swm o £325.00 wedi ei glustnodi ar gyfer Criccieth yn 2018/19 ( yr un swm â 2017-18). Roedd y Clerc wedi cyflwyno'r cais am ad-daliad ar gyfer 2017/18.

**Penderfyniad:** cadarnhau dymuniad i barhau i fod yn rhan o'r trefniant ad-daliad yn 2018/19

- k. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn –Adnabod Llecynnau Agored - llythyr 15 Chwefror 2018

Gofyn i'r Cyngor wirio bod y wybodaeth ar y cynlluniau ar gyfer Criccieth yn gywir. Roedd yn ymddangos bod yna broblem gyda chywirdeb y wybodaeth ar gyfer y tir gyferbyn â Bodlondeb/Henfaes/Min y Gaer.

**Penderfyniad:** Gofynwyd i'r Cyng Robert Cadwalader i wirio'r wybodaeth.

- l. Aelodaeth Un Llais Cymru 2018/19 – llythyr 7 Chwefror 2018

Derbyniwyd lythyr yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu ei aelodaeth ac yn nodi'r gwerth am arian a'r gwasanaethau a gynigir gan Un Llais Cymru a'r gweithgaredd yn ystod y flwyddyn a fu. Nodwyd budd y gwasanaeth i'r Cyngor.

**Penderfyniad:** cytuno i barhau gyda'r aelodaeth ar gost o £295 i'w dalu yng nghyfarfod mis Ebrill

- m. Un Llais Cymru – Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol Un Llais Cymru –ebost 19 Chwefror 2018

Gwahoddiad i fynychu Cynhadledd Arfer Arloesol a Gwobrau Cenedlaethol 2018 er mwyn dysgu am ymarfer da a wneir gan Cyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru. Dydd Iau 29 Mawrth 2018

**Penderfyniad:** Gwahoddwyd aelodau i gysylltu gyda'r Clerc os oeddynt am fynychu.

- n. Neuadd Goffa – ebost 22 Chwefror 2018

Derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd Neuadd Goffa Criccieth a oedd yn nodi'r posibilrwydd am rhai newidiadau i fynedfa'r Neuadd Goffa Gwahoddiwyd sylwadau ac hefyd yr opsiwn i aelodau'r Cyngor ymweld â'r safle. Y bwriad gyda'r newidiadau oedd lleihau risgiau o ddamweiniau a gwella cyfleusterau.

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth a chrosawu'r bwriadau.

- o. Diffibriliwr Tyn Rhos – epost 21 Chwefror 2018 a llythyr 7 Mawrth

Nodwyd bod llythyr cais wedi ei dderbyn gan Gadeirydd "Criccieth Community Fund" sydd wedi ei sefydlu – y prosiect cyntaf yw codi arian i brynu diffibriliwr gyda'r bwriad o'i leoli yn hen bocs BT ystad Ty'n Rhos. Byddai'n rhaid i'r Cyngor Tref neu berchnogydd tir fabwysiadu'r bocs yn unol â gofynion BT.

**Penderfyniad:** Cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu'r bocs BT ac ymchwilio i'r oblygiadau a'r broses ac adrodd nôl.

- p. Llythyr cais i osod meinciau a byrddau gan dafarn y Prince of Wales

Derbyniwyd llythyr yn gofyn am hawl i osod pedair mainc picnic yn y darn gwair i'w ddefnyddio gan y cyhoedd. Roedd rheolwr tafarn y Prince of Wales am gymeryd cyfrifoldeb sicrhau bod y lle'n cael ei glirio o sbwriel ac ati ac yn addo y bydde'n cael eu gwared os oeddynt yn denu problemau. Gan nad tîr y Cyngor Tref oedd hyn byddai'n rhaid cael prydles gan Cyngor Gwynedd.

**Penderfyniad:** Cytuno mewn egwyddor i'w dreialu am flwyddyn cyn belled â bod y Cyngor Sir yn rhoi'r hawl priodol. Dylai'r ymgeisydd ymgynghori gyda thrigolion y teras gyfagos, ac roedd y Cyngor Tref o'r farn na ddylid cael prynu diod yn y dafarn i'w yfed tu allan ar ôl naw o'r gloch yr hwyr.

- q. Cymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli – epost 7 Chwefror 2018

Llythyr cais wedi dod am nawdd i'w ystyried o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nodi bod y Parêd wedi ei ganslo oherwydd y tywydd garw.

**Penderfyniad:** dim cyfraniad.

- r. Llythyr gan Pwyllgor Chwiorydd Capel y Traeth – 22 Chwefror 2018

Derbyniwyd llythyr yn mynegu dymuniad y Pwyllgor i ailgodi'r canu cynulleidfaol wrth y môr ar nosweithiau Sul o ganol mis Gorffennaf hyd ddiwedd Awst. Gan nad tîr y Cyngor Tref oedd hyn bydde'n rhaid gael caniatad gan Cyngor Gwynedd.

**Penderfyniad:** Roedd y Cyngor yn cefnogi'r syniad ond rhoedd angen i'r Pwyllgor Chwiorydd gysylltu gyda'r Cyngor Sir. Nid oedd y Cyngor Tref yn medru cymeryd cyfrifoldeb nac ychwaith cynnig help o rhan yswiriant.

### **7-03/18: Ceisiadau Cynllunio**

Nid oedd ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

### **8-03/18 Polisi Mynegi Pryderon a Chwynion y Cyngor**

Ystyriwyd polisi drafft a oedd wedi ei gylchredeg.

**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd y polisi gan y Cyngor Tref.

### **9-03/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth**

Nodwyd bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda a bod diwrnod llwyddiannus i hel atgofion wedi cymeryd lle yn Ysgol Treferthyr prynhawn Mercher 7 Mawrth. Roedd deunydd diddorol a gwerthfawr wedi cael eu gofnodi ar gyfer y prosiect.

**Penderfyniad:** derbyn yr adroddiad.

### **10-03 /18 Cynllun Cymunedol Criccieth – adroddiad gan y Grŵp Llywio o gyfarfod 26 Chwefror 2018**

Roedd y cofnodion wedi eu cylchredeg.

#### **a. 18-02/18 b. Ail-Fodelu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – e-bost 31/1/2018**

Nodwyd bod yr ymateb wedi ei gyflwyno i Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r ail-fodelu gwasanaeth ieuenctid. Roedd yr ymateb yn codi amheuan gan y Cyngor Tref am y broses a sut oedd y casgliadau wedi eu cyrraedd ac hefyd yr amserlen a'r diffyg amser i gynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r cymunedau ar gyfer darpariaeth i ieuenctid ar gyfer y dyfodol, gan ystyried hefyd oblygiadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yn gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd am rhagor o amser er mwyn cael trafodaethau ystyrlon cyn cymeryd penderfyniad ar fater a oedd mor bwysig i'n cymunedau.

#### **b. 19-10/18 e-bost Criccieth yn ei Blodau – 14 Chwefror 2018**

I ymateb i ddweud bod y Cyngor Tref yn ystyried y meinciau fel rhan o'r Cynllun Cymunedol ac yn nodi'r dymuniad am osod mainc newydd ac i ail osod un mainc yn y dref fel rhan o'r Cynllun Cymunedol ac yn nodi'r dymuniad. Hefyd i gadarnhau nad oedd problem gyda'r plannu ac y byddai'r Cyngor yn cysylltu gyda Cadw Cymru'n Daclus i sicrhau bagiau sbwriel

#### **c. Ystyriaeth o adroddiad terfynol 'Ymgynghoriad cyhoeddus Criccieth – datblygu'r Cynllun Cymunedol' – argymhellion i'r Cyngor ar greu Cynllun Cymunedol Criccieth.**

Roedd y Grŵp yn cynnig nifer o argymhellion ar sut i symud ymlaen gyda datblygu'r Cynllun. Yn dilyn y cyfarfod roedd gohebiaeth wedi dod gan Cyngor Gwynedd yn cynnig ei bod nhw'n gwneud y gwaith o osod y meinciau ar gost i'r Cyngor Tref yn hytrach na bod y Cyngor Tref yn cymeryd cyfrifoldeb am hyn. Roedd angen trefnu cyfarfod maes gyda Swyddog Cyngor Gwynedd.

Tynnwyd sylw at yr argymhellion ac hefyd cynnig gan ymgynghorydd ar gyfer y cam nesaf i ddatblygu'r cynllun – sef symud y Cyngor ymlaen yn sylweddol i gynhyrchu Cynllun Cymunedol realistig ac ymarferol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf erbyn diwedd mis Mehefin drwy gynnal tri gweithdy i fuddeiliaid ym Mis Ebrill/Mai. Roedd y Cyngor yn gweld hi'n bwysig dal i gydweithio gyda'r gymuned ar ddatblygu'r Cynllun ac i harnessu parodrwydd pobl i helpu'r Cyngor i wireddu'r Cynllun.

**Penderfyniad:** Derbyn y cofnodion a'r argymhellion (gan nodi'r angen i addasu'r argymhellion am y meinciau yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyngor Sir) ac i symund ymlaen gyda'r gwaith gyda' chymorth yr ymgynhorydd ar gost o £3000 – costau ychwanegol ar gyfer cyfieithu, llogi ystafell, costau lliniaeth.

### **11-03/18 Cofnodion Cyfarfod is-Grwp Cyllid 5 Mawrth 2018**

Roedd y cofnodion wedi eu cylchredeg.

#### **a. 6-03/18 Llywodraeth Cymru: uchafswm gwariant 2018-19**

Nodi o dan y rheolau mai 1306 oedd nifer etholwyr Criccieth: felly y mwyaf y gall y Cyngor wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol yn 2018/19 fydd £10,265.16 ( sef £7.86 x1306)

#### **b. 7-03/18 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cyngorau Cymuned a Thref – adroddiad terfynol**

Argymhelliad i'r Cyngor:

1. Cynnwys swm priodol yn y gyllideb ar gyfer taliad o £150 ar gyfer aelodau unigol a fyddai'n cael ei dalu i aelodau ym mis Mawrth, heblaw bod Cyngorwyr yn cadarnahu mewn ysgrifen i'r Clerc i ddewis rhoi heibio peth neu'r cyfan o'r hawl erbyn cyfarfod mis Ionawr 2019 o'r Cyngor Tref.
2. Cadw at yr un drefn o dalu £200 i gronfa'r Cadeirydd yn unig i'w dalu ym Mis Mawrth 2019.
3. Talu costau teithio pob aelod yn unôl â'r adroddiad a'r cyfraddau nodir yn nhabl yr adroddiad, gan ddefnyddio ffurflen gostau'r Cyngor.
4. Talu arhosiad cynhaliaeth dros nos yn unôl â'r adroddiad a'r cyfraddau nodir yn nhabl yr adroddiad, gan ddefnyddio ffurflen gostau'r Cyngor.
5. Talu iawndal am golled ariannol aelodau'r Cyngor yn unôl â'r adroddiad.
6. Darparu ar gyfer ad-dalu coastu angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis, gan ddilyn at y drefn a osodir yn yr adroddiad ar gyfer derbyniadau ac i'w hawlio ar ffurflen gostau'r Cyngor.

**Costau ychwanegol:** Roedd y Pwyllgor hefyd yn cynnig gosod cost ffotocopio 10c y dudalen a chost post ar gyfer cais am gopiau caled o unrhyw ddogfennaeth mae'r Cyngor yn cyhoeddi ac hefyd cynnyws cost amser y Clerc ar ben hyn (lleiafswm o 15 munud).

Nodi hefyd bod y Clerc wedi derbyn gwahoddiad i fynychu seminar ar sut oedd gweithredu'r cydnabyddiaethau ar 9 Mai 2018 (Llandudno)

**Penderfyniad:** derbyn yr argymhellion(1-6) ar gyfer polisi y Cyngor yn 2018-19 a'r costau ychwanegol ac hefyd y dylai'r Clerc fynychu'r seminar.

#### **c. 8-03/18 Diweddariad ar gyfrifon 2017-2018 a'r broses o gymeradwyo cyfrifon diwedd y flwyddyn**

Nodi'r sefyllfa a'r diweddariad ac y bydda'r Cyngor fel corff yn cymeradwyo cyfrifon diwedd y flwyddyn.

#### **d. 9-03/18 Cyllideb 2018-19**

I argymhell i'r Cyngor y dylid derbyn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, ac y dylid trosglwyddo £48,8101 o'r arian wrth gefn i ychwanegu at y £36,000 o'r praesept. Roedd angen trosglwyddo £9,885 o'r £10,000 grant arian y Loteri ar gyfer y prosiect penodol yma i'r gyllideb ar gyfer 2018-19.

**Penderfyniad:** derbyn yr argymhellion ar gyfer cyllideb y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19 (Atodiad 1).

**e. 10-03/18 Corff gwarchod y sector cyhoeddus yn ceisio adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar god diwygiedig – ebost 31 Ionawr 2018**

Roedd y Cyngor wedi gofyn i'r Is-Grŵp Cyllid am sylwadau

Argymhelliad i dderbyn y wybodaeth

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth

**f. Penderfyniad:** Cytuno i dderbyn cofnodion yr Is-Grŵp Cyllid

**12-03/18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.**

Nodwyd bod ymateb wedi dod oddiwrth Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei bod dal i aros am y cyngor cyfreithiol ac yn barod i'w rhannu gyda'r Cyngor yn dilyn ei dderbyn. Roedd y swyddog wedi gofyn am dystiolaeth y Cyngor Tref a'r Clerc wedi gyrru copi o'r gwaith ymchwil a oedd wedi ei wneud.

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth a gofyn i'r Clerc i wirio os oedd diweddariad gan Cyngor Gwynedd cyn y cyfarfod nesaf.

**13-03 /18 Torri gwair yn y dref**

Nodwyd bod y Clerc wedi cadarnhau penderfyniad y Cyngor ynglŷn â chynllun torri gwair ychwanegol ar gyfer 2018/19. Roedd yn aros i gael cadarnhad am yr amserlen gan Cyngor Gwynedd.

**Penderfyniad:** .derbyn y wybodaeth

**14-03/18: Parcio yng Nghriccieth**

Roedd ymateb wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd gyda'r opsiynau ar gyfer gwella'r sefyllfa parcio ger Dylan's : 3 opsiwn:

1. Ail farcio'r llinellau i gynnwys y llain – cost £500 gan Cyngor Gwynedd
2. Gosod bolardiau pren £1500 – gall Cyngor Gwynedd ei ariannu ond nid oed y Cyngor yn rhagweld medru ei gynnal.
3. Gosod troedffordd ar ochr y ffordd ar gost o £4k i'r Cyngor Tref (sdim arian ar gyfer hyn yn y gyllideb – a fyddai hyn yn flaenoriaeth gan y Cyngor? Lot i wario)

**Penderfyniad:** i gadarnhau dymuniad y Cyngor i weld opsiwn dau ar yr amod bod bolardiau plastig yn cael eu gosod (fel y rhai gyferbyn â Meddygfa Criccieth, ac nid rhai pren)

**15-03/18 Torri Coed yng Nghriccieth**

Dim i'w adrodd

**16-03/18 Meinciau Tref Criccieth**

Gweler yr adroddiad ar gofnodion Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth (eitem 10-03/18).

**17-03/18 Llwybrau Cyhoeddus**

Dim i'w adrodd.



### 18-03/18: Derbyniadau

### 19-03/18: Taliadau

Rhodddwyd ganiatad i'r Clerc i dalu'r biliau.

• Cyllid y Wlad (PAYE) Chwefror	£126.80 (siec 101219)
• Cyflog y Clerc (IChwefror)	£506.49(siec 101220)
• Costau Clerc	£283.33..(siec 101221)
• Taliad Cronfa'r Cadeirydd	£200.00 (siec 101222)
• Gwasg Cymru	£115.00 (siec 101223)
• Arwel Jones ac Ati	£2520.00(siec 101224)

---

Daeth y cyfarfod i ben am y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Lun 9 Ebrill 2018.**

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 31 Mawrth 2018\*\***

Atodiad 1

Cyllideb Cyngor Tref Criccieth ar gyfer 2018/19

**Incwm**

Praesept	£36,000
Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn )	£48,810
Trosglwyddiad o Grant Treftadaeth Loteri	£9,885
<b>Cyfanswm</b>	<b>£94,695</b>

**Gwariant**

Cyflog	£8,500
Swyddog Gwarchod Data	£1,000
Yswiriant	£1,700
Cynnal llwybrau	£1,600
Torri Gwair	£5,000
Rhent stafell (Llyfrgell)	£1,000
Stampiau	£150
Costau swyddfa	£100
Aelodaeth	£400
Cyfrifon (archwilio)	....£500
Cyrsiau	....£400
Nadolig	£8,000
Sul y Cofio	.....£25
Deddf data	.....£35
Costau Clerc swyddfa	.....£850
Costau Clerc teithio	.....£250
Toiledau	£6,000
Manion/arall	£4,300
	£39,810

Cyfraniad Neuadd Goffa	£5,000
Cyfraniadau eraill	£5,000
Prosiectau	£35,000
Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth	£9,885

<b>CYFANSWM CYLLIDEB</b>	<b>£94,695</b>
--------------------------	----------------